

# Nodweddion Diddorol




- A** Yn ei anterth, oddeutu 1890, roedd chwarel Braich Goch yn cyflogi 238 o ddynion. Safai prif swyddfeydd y chwarel yma ar un adeg, ond gyda dirywiad y diwydiant llechi, cafodd yr adeiladau eu dymchwel a chodwyd y Ganolfan Grefft ar y safle yn y pen draw.
- B** Mae'n anodd credu, ond yn ystod ei anterth diwydiannol, roedd gan y pentref cysglyd hwn 14 siop, 3 banc, popty, 2 ysgol, a phapur newydd wythnosol, hyd yn oed.
- C** Amgueddfa Rheilffordd Corris - Adeiladwyd y rheilffordd yn 1859 yn wreiddiol fel tramffordd ceffyl i gludo llechi o'r chwareli yng Nghorris Uchaf ac Aberllefenni i aber Afon Dyfi i'w cludo ar longau. Daethpwyd ag injans stêm yn 1879 a chludwyd teithwyr nes y daeth bysiau'n fwy cyffredin yn 1930. Caewyd y rheilffordd yn derfynol yn 1948. Bellach, wedi 35 mlynedd o weithredu gan wirfoddolwyr, mae Cymdeithas Rheilffordd Corris wedi dechrau rhedeg gwasanaethau cyhoeddus eto yn ystod tymor y gwyliau. Ceir arddangosion da o hanes lleol, hanes cymdeithasol, hanes mwynloddio a hanes y rheilffordd yn yr amgueddfa.
- D** Institiwt Corris - Rhoddwyd yr institiwt i bobl Corris yn 1920 gan Syr Howell J Williams, a ddefnyddiodd ei lwyddiant yn y byd ehangach i roi rhywbeth yn ôl i bentref ei febyd. Bu'r adeilad gynt yn gartref i ddau fwrdd snwcer, ystafell ddarllen a baddon cyhoeddus, ond wedi ei ailwampio, bellach caiff ei ddefnyddio fel swyddfa bost, caffi a lleoliad adloniant.
- E** Adeiladwyd capel Rehoboth yma yn 1924 wedi gorfod dymchwel y capel blaenorol, a safai ar y bryn, yn dilyn tirlithriad yn 1922.

# Points of Interest



- A** At its peak, around 1890, Braich Goch quarry employed 238 men. The main offices for the quarry once stood here, but following the demise of the slate industry, the buildings were demolished and were eventually replaced with the Craft Centre.
- B** It is difficult to believe, but at its industrial peak this sleepy village once included 14 shops, 3 banks, a bakery, 2 schools and even a weekly newspaper.
- C** Corris Railway Museum - The railway was originally built in 1859 as a horse drawn tramway to carry slate from the quarries in Corris Uchaf and Aberllefenni to the Dyfi Estuary for shipping. In 1879 steam engines were introduced, and the service carried passengers until buses became more common in 1930. The railway finally closed in 1948. Now, after 35 years of volunteer activity, the Corris Railway Society has started running public services again during the holiday season. In the railway museum there are good exhibits about the local mining and railway history.
- D** Corris Institute - Donated to the people of Corris in 1920 by Sir Howell J Williams, who used his success in the wider world to give something back to the village of his birth. The institute formerly housed two snooker tables, a reading room and a public bath, but has now been refurbished and is used as a post office, café and entertainment venue.



- E** Rehoboth chapel was built here in 1924 after the previous chapel, located on the hill had to be demolished following a landslide in 1922.
- F** This track formed part of the old tramline which leads up to the slate quarry in Aberllefenni. The slate was transported by wagon down to Corris, and was then sent by steam train to Derwenlas to be transported by ship all over the world.
- G** Following a period of heavy rain in 1922, a landslide ripped through the cemetery, crashing through the original Rehoboth chapel and down to the village below. It is said that the force of the water and debris carried the coffins through the streets of Corris.
- H** Inspired by his travels to Italy and its Renaissance architecture, this model Italian garden was built by a local resident, Mark Bourne.
- J** Cwmodyn quarry was worked between 1860 and the early 1950s. The remnants of the quarry buildings still remain and include a slate mill, workers cottages and a canteen. Many of the quarrymen who worked here were very cultured and during their breaks they would regularly hold debates, and recite poetry. To your R is the start of a steep incline which leads past a small reservoir to a drum house at the top of the hill. High humidity next to the waterfalls provides a perfect place to see cascading carpets of mosses and liverworts.
- K** One of the many uses of slate include fencing. Large pieces of slate waste were split and tied with wire to form secure and long lasting enclosures.
- L** Aber Corris Nature reserve is a small broadleaf woodland managed by the North Wales Wildlife Trust. The reserve is rich in wildlife with many species of birds include pied and spotted flycatcher, treecreeper, nuthatch and long tailed tits. The pygmy shrew, Britain's smallest mammal, also lives on the reserve, and otters visit!



# Taith Gerdded Pentref Corris



# Corris Village Walk





**Dechrau:** Maes parcio Canolfan Grefft Corris  
**Cyfeirnod Grid:** SH 750 078  
**Pellter:** 5 km – 3.1 milltir  
 Dewis byrrach: 2.3 km – 1.4 milltir  
 Cymedrol (rhai darnau serth)  
**Gradd:** Ffordd tarmac a thraciau cadarn  
**Tirwedd:** Arolwg Ordnans Explorer - OL 23  
**Mapiau:** Canolfan Grefft Corris, Caffi Institiwt  
 Corris, Amgueddfa Rheilffordd Corris,  
 Tŷ Bynciau Braich Goch, Tafarn y  
 Chwarelwr a chanolfan ymwelwyr  
 Tŷ Te Cadair, Tal-y-Llyn

1 O Ganolfan Grefft Corris **A**, ewch i ben draw'r maes parcio (i ffwrdd o'r unedau crefft) a dilynwch drac tarmac. Ar y gyffordd, trowch i'r chwith tuag at y brif ffordd a chroeswch yn ofalus i'r safle bws. Dilynwch y llwybr tarmac ar y dde a chymryd yr ail droad ar y chwith i ddilyn llwybr igam ogam i lawr i bentref Corris **B**. Pan gyrhaeddwch y ffordd **C**, trowch i'r chwith i gerdded heibio Institiwt Corris **D**. Ar y groesffordd, trowch i'r dde i gerdded i lawr bryn serth.



Llun/Picture Ceirios Davies


2 Yn union cyn y bont, trowch i'r chwith trwy giât i ddilyn llwybr ar hyd yr afon. Ewch drwy giât arall cyn mynd i fyny llethr i gyrraedd pen ffens llechi ar y chwith. Trowch i'r chwith yma trwy giât, wedyn cerdded yn syth ymlaen trwy gât mochyn. Dilynwch y llwybr i fyny, gan droi i'r chwith yn fuan i gerdded ar hyd trac tarmac islaw'r capel **E**. Ar ddiwedd y llwybr **F**, trowch i'r dde ac i'r dde eto ar y gyffordd. Cerddwch i fyny am ychydig cyn troi i'r chwith.



© Llun/Picture Ceirios Davies

- 3 Trowch i'r dde ar y gyffordd nesaf **NEU** am lwybr byr trowch i'r chwith i lawr at y groesffordd a throi i'r dde ac i'r dde eto i fyny'r llwybr igam ogam yn ôl i'r Ganolfan Grefft. I barhau â'r daith hirach, ewch i fyny llethr serth iawn heibio'r fynwent **G**. Trowch i'r dde ger y arwyddbost i ddilyn y trac i fyny tuag at y blanhigfa, gan fynd heibio'r pentref â modelau Eidalaidd ar eich ffordd **H**. Pan gyrhaeddwch hen sied llechi, trowch i'r chwith i gerdded ar hyd llwybr glaswelltog i gyrraedd golygfan dros bentref Corris Uchaf. Ewch yn ôl i'r sied llechi a throi i'r chwith i gerdded heibio rhai o adfeilion y chwarel **J**.
- 4 Lle mae'r llwybr yn rhannu'n ddau, trowch i'r chwith i gerdded i lawr trwy'r coed i ddilyn hen dramffordd. Ar derfyn y coetir, ewch drwy giât a dilyn y llwybr i lawr at drac siâl. Trowch i'r dde a dilyn y trac i lawr trwy giât fetel i'r ffordd. Trowch i'r chwith a dilyn y ffordd **K** heibio nifer o dai ar y dde, wedyn troi i'r dde wrth y arwyddbost i lawr i Warchodfa Natur Aber Corris **L**. Ar ôl croesi'r bont troed, trowch i'r dde i ddilyn y llwybr is rownd y tro ac i fyny i'r ffordd.
- 5 Trowch i'r chwith a dilyn y pafin tarmac am oddeutu 200m cyn troi i'r chwith i ddilyn llwybr â chyfeirbwyntiau sydd wedi'i guddio ychydig. Mae'r llwybr yn disgyn yn raddol islaw'r ffordd, gan groesi pont droed cyn codi drachefn i'r ffordd uwchben. Trowch i'r dde at y maes parcio.

## Taith Pentref Corris Village Walk



**Start:** Corris Craft Centre car park  
**Grid Reference:** SH 750 078  
**Distance:** 5 km – 3.1 miles  
 Shorter option: 2.3 km – 1.4 miles  
**Grade:** Moderate (some steep sections)  
**Terrain:** Tarmac road and firm tracks  
**Maps:** OS Explorer - OL 23  
**Refreshments:** Corris Craft Centre, Corris Institute Café, Corris Railway Museum, Braich Goch bunkhouse, Slaters Arms pub and Tŷ Te Cadair visitor centre, Tal-y-Llyn

- 1 From the Corris Craft Centre **A**, go to the far end of the car park (away from the craft units) and follow a tarmac track. At the road junction turn **L** towards the main road and cross over to the bus stop, taking care as you do so. Follow the tarmac path to your **R** to take the second turning on your **L** to follow a walled zig zag path down to the village of Corris **B**. When you reach the road **C**, turn **L** to walk past the Corris Institute **D**. At the crossroads, turn **R** to walk down a steep hill.
- 2 Just before the bridge turn **L** through a **G** to follow a path along the river. Go through another **G** before going uphill to reach the end of a slate fence on your **L**. Turn **L** here through a **G**, then walk directly ahead through a kissing **G**. Follow the path up, soon turning **L** to walk along a tarmac track beneath the chapel **E**. At the end of the path **F**, turn **R**, then **R** again at the road junction. Walk uphill for a short distance before turning **L**.
- 3 Turn **R** at the next junction **OR** for short route turn **L** down to crossroads and turn **R** then **R** again up the zig-zag path back to the Craft Centre. To continue longer walk, go up a very steep hill past a cemetery **G**. Turn **R** at a finger post to follow the track up towards the plantation, passing model Italian village on your way **H**. When you reach an old slate shed turn **L** to walk along a grassy path to reach a viewpoint over the village of Corris Uchaf. Retrace your steps back to the slate shed and turn **L** to walk past some quarry ruins **J**.
- 4 Where the path splits, turn **L** to walk down through the trees to follow an old tramway. At the woodland boundary go through a **G** and follow the path down to reach a shale track. Turn **R** and follow it down through a metal **G** to road. Turn **L** and follow road **K** past a number of houses on your **R** then turn **R** at the finger post down into Aber Corris Nature Reserve **L**. After crossing the **FB**, turn **R** to follow the lower path around the bend and up to the road.
- 5 Turn **L** and follow the tarmac paving for approximately 200m before turning **L** to follow a slightly hidden, waymarked path. The path gradually descends below the road, crossing a small **FB** before ascending back onto the road above. Turn **R** for the car park.

